# Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun rhesymol a theg o effaith disgwyliedig Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 ac rwyf yn fodlon bod y manteision yn drech nag unrhyw gostau.

*Leighton Andrews AC*

Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

2 Mawrth 2012

**Disgrifiad**

1. Mae'r Gorchymyn yn trosglwyddo swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg i Lywodraeth Cymru, yn gwneud darpariaeth parthed paratoi datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol terfynol y Bwrdd ac yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall i hepgor cyfeiriad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac i amnewid cyfeiriadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gyda chyfeiriadau at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

2. Dim.

**Cefndir Deddfwriaethol**

3. Gwneir y Gorchymyn hwn dan adrannau 150 (Gorchmynion a rheoliadau), is-adran (5) ac adran 154 (Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur').

4. Mae'r Gorchymyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad (y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol). Mae Adran 150(2)(k) yn darparu na ellir gwneud gorchymyn a wneir dan adran 154 sy'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu fel arall yn addasu deddfiad (ac eithrio deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth) oni bai fod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu ac yn addasu deddfiadau ac felly wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth**

*Trosglwyddo Swyddogaethau*

6. Ar 1 Ebrill 2012, caiff Comisiynydd y Gymraeg ei sefydlu a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei ddiddymu. Ar y dyddiad hynny, caiff y swyddogaethau a gyflwynwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, swyddogaethau o hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg, eu trosglwyddo i'r Comisiynydd dan adran 143(2) o'r Mesur. Mae adran 143(3) o'r Mesur yn rhagweld y gall gorchymyn dan adran 154 o'r Mesur, yn ychwanegol at hynny, drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd dan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru.

7. Mae Erthygl 3 y Gorchymyn, a wneir dan adran 154 o'r Mesur, yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd dan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru yn ychwanegol at drosglwyddo'r swyddogaethau hynny i'r Comisiynydd dan adran 143(2) y Mesur.

8. O ganlyniad bydd gan Weinidogion Cymru, yn ogystal â'r Comisiynydd y swyddogaeth o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Caiff rhai o'r gweithgareddau a gynhelir gan y Bwrdd i hybu a hwyluso'r Gymraeg, gan gynnwys rhoi cefnogaeth ariannol i gyrff sy'n hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg megis yr Urdd a'r Mentrau Iaith, eu cynnal gan Lywodraeth Cymru ar ôl 1 Ebrill 2012. Mae disgwyl i'r Comisiynydd ganolbwyntio ar y swyddogaethau rheoleiddio a roddir i'r Comisiynydd o dan y Mesur.

*Darpariaethau trosiannol*

9. Ar 1 Ebrill 2012, caiff y Bwrdd ei ddiddymu cyn y gall gydymffurfio â pharagraffau 12 (Cyfrifon) ac 13 (Adroddiadau blynyddol) o Atodlen 1 i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 trwy gwblhau ei ddatganiad o gyfrifon olaf mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012 a chwblhau ei adroddiad blynyddol ynghylch y modd yr arferodd ei swyddogaethau yn ystod yr un cyfnod.

10. Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn yn darparu y caiff datganiad o gyfrifon olaf y Bwrdd ei ddarparu gan Weinidogion Cymru a'i gyflwyno ganddynt i Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn 31 Awst 2012. Bydd yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon. Mae hefyd yn ofynnol, o dan y Gorchymyn, i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwyno copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

11. Mae Erthygl 5 o'r Gorchymyn yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r adroddiad blynyddol olaf a chyflwyno copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Darpariaethau canlyniadol*

12. Mae Erthyglau 6 i 13 yn diwygio amryw o eitemau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn cyfeirio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r diwygiadau yn cynnwys, lle bo'n briodol, diddymu cyfeiriadau at y Bwrdd a newid y cyfeiriadau at y Bwrdd i gyfeiriadau at y Comisiynydd.

13. Mae Erthygl 6 yn diddymu cyfeiriad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Rhan I o Atodlen 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Gall y cyrff a gynhwysir yn y Rhan honno o Atodlen 4 (Cyrff cyhoeddus a allai gael eu diwygio gan y Cynulliad) drwy orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, ennill neu golli swyddogaethau statudol. Yn sgili diddymu'r Bwrdd nid oes angen bellach cynnwys y cyfeiriad hwn yn yr Atodlen hon.

14. Mae Erthygl 7 yn newid y cyfeiriad at y Bwrdd i gyfeiriad at y Comisiynydd Bydd hyn yn golygu y gall Comisiynydd Plant Cymru, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, adolygu sut mae'r modd y mae'r Comisiynydd yn arfer neu'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn effeithio ar blant.

15. Mae Erthygl 8 yn newid y cyfeiriad at y Bwrdd i gyfeiriad at y Comisiynydd yn Atodlen 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O ganlyniad, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, bydd y Comisiynydd yn 'awdurdod cyhoeddus' at ddibenion adran 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 1 o Ddeddf Rhyddid

16. Gwybodaeth 2000 yn darparu bod person sy'n gwneud cais i 'awdurdod cyhoeddus' â'r hawl i gael cadarnhad ysgrifenedig a yw'r awdurdod hwnnw â gwybodaeth o'r math a ddisgrifir yn y cais yn ei feddiant, ac, os hynny, i gael yr wybodaeth honno, yn ddarostyngedig i'r eithriadau ac i ddarpariaethau eraill Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

17. Mae Erthygl 9 yn newid y cyfeiriad at y Bwrdd i gyfeiriad at y Comisiynydd fel y y bydd y Comisiynydd yn 'awdurdod sy'n cael ei rhestru' at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae hyn yn golygu, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, y gall rhai cwynion am y modd y mae'r Comisiynydd yn arfer neu bwriadu arfer ei swyddogaethau gael eu hadolygu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

18. Mae Erthygl 10 yn newid y cyfeiriad yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 at y Bwrdd i gyfeiriad at y Comisiynydd er mwyn sicrhau y gall Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru adolygu sut mae'r modd y mae'r Comisiynydd yn arfer neu'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn effeithio ar bobl hŷn.

19. Mae Erthygl 11 yn newid y cyfeiriad at y Bwrdd i gyfeiriad at y Comisiynydd yn Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae adran 149 o Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw, wrth arfer eu swyddogaethau, er enghraifft, i'r angen i ddileu camwahaniaethu. Pennir awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 gan gynnwys y Bwrdd. O 1 Ebrill 2012 ymlaen, yn sgil effaith yr erthygl hon, bydd y Comisiynydd yn awrdurdod cyhoeddus at ddibenion erthygl 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

20. Mae Erthygl 12 yn hepgor y cyfeiriad at y Bwrdd yn adran 16 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a rhoi cyfeiriad at y Comisiynydd yn ei le. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi pwerau i reoleiddwyr perthnasol ac yn gosod dyletswyddau arnynt. Pennir y rheini sy'n rheoleiddwyr perthnasol at y dibenion hyn yn adran 16 o'r Mesur hwnnw ac maent yn cynnwys y Bwrdd wrth iddo arfer ei swyddogaethau o ymchwilio i achosion o dorri ymrwymiadau mewn cynlluniau iaith o dan adran 17 o Deddf 1993. Bydd swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 17 o Ddeddf 1993 yn trosglwyddo i'r Comisiynydd ar 1 Ebrill

2012 o dan adran 143 o’r Mesur. Yn sgil effaith yr erthygl hon, bydd y Comisiynydd yn reoleiddiwr perthnasol o 1 Ebrill 2012 wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf 1993.

21. Mae Erthygl 13 yn hepgor y cyfeiriad at y Bwrdd yn Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007 ac yn rhoi yn ei le gyfeiriad at y Comisiynydd. O ganlyniad, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, cyn paratoi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, bydd yn rhaid i awdurdod lleol ymgynghori gyda’r Comisiynydd.

**Ymgynghori**

22. Mae’r wybodaeth o dan y pennawd hwn wedi’i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr Opsiynau

### Opsiwn 1: Gwneud y Ddeddfwriaeth

23. Gall Weinidogion Cymru wneud y Gorchymyn hwn o dan adrannau 150(5) a 154 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur").

*Trosglwyddo swyddogaethau*

24. Daw Adran 143(2) o'r Mesur i rym ar 1 Ebrill 2012 a bydd yn trosglwyddo i'r Comisiynydd y swyddogaethau a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith gan Adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, swyddogaethau o hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae gwneud y Gorchymyn hwn yn galluogi trosglwyddo'r un swyddogaethau i Weinidogion Cymru hefyd ar 1 Ebrill 2012.

25. Felly pe bai'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud, yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlu Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012, bydd gan Weinidogion Cymru yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg, y swyddogaethau o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo'r Gorchymyn hwn.

*Darpariaethau trosiannol*

26. Mae paragraffau 12 a 13 o atodlen 1 i Ddeddf Iaith 1993 yn rhoi dyletswydd ar Fwrdd yr Iaith i gwblhau parthed pob blwyddyn gyfrifo (sef o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol) datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ynghylch y modd yr arferodd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn gyrfrifo honno . Ni fydd y Bwrdd yn gallu cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn mewn perthynas â'r flwyddyn gyfrifo 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaethau er mwyn sicrhau bod datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol yn cael eu paratoi ar gyfer Bwrdd yr Iaith am y cyfnod o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012. Mae'r Gorchymyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi'r datganiad o gyfrifon a'r adroddiad blynyddol. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r drefn i'w dilyn yn y ddau achos, ac, ar gyfer y datganiad o gyfrifon, yn gosod swyddogaethau ar Archwilydd Cyffredinol Cymru.

27. Mae'n briodol bod Gweinidogion Cymru, fel noddwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn paratoi'r datganiad o gyfrifon a'r adroddiad blynyddol. Ni fyddai'n briodol i Gomisiynydd y Gymraeg ymgymryd â'r ddyletswydd hon, gan na fydd y Comisiynydd wedi goruchwylio Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Darpariaethau canlyniadol

28. Mae’r Gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth i hepgor cyfeiriadau at Fwrdd yr Iaith ac, lle mae’n briodol, mewnosod yn lle’r cyfeiriadau hynny, cyfeiriadau at y Comisiynydd.

29. Bydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn derbyn nifer o swyddogaethau Bwrdd yr Iaith ar 1 Ebrill 2012. Bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod Comisiynydd y Gymraeg yn ymgymryd â’r un dyletswyddau statudol â Bwrdd yr Iaith, megis ym maes rhyddid gwybodaeth a deddfwriaeth cydraddoldeb.

**Opsiwn 2: gwneud dim**

30. Gallai Weinidogion Cymru benderfynu peidio ag arfer eu pwerau o dan adrannau 150 (5) a 154 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i wneud y Gorchymyn hwn.

31. Er hynny, canlyniad hynny fyddai methiant i drosglwyddo swyddogaethau o hybu a hwyluso’r Gymraeg, o dan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i Weinidogion Cymru.

32. Bydd methiant i wneud y Gorchymyn hwn yn golygu na fydd datganiad o gyfrifon nac adroddiad blynyddol mewn perthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012.

33. Yn ogystal, bydd methiant i wneud y Gorchymyn hwn yn golygu, er enghraifft, na fydd Comisiynydd y Gymraeg yn gorfod cydymffurfio â’r dyletswyddau statudol sy’n gymwys i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â rhyddid gwybodaeth ac o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

**Costau a manteision**

**Opsiwn 1: gwneud y ddeddfwriaeth**

34. Ni fyddai unrhyw gostau i fusnesau, sector gwirfoddol, llywodraeth leol ac eraill o ganlyniad i’r opsiwn hwn.

35. Fel amcangyfrifwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, caiff y costau staffio sy’n gysylltiedig â gweithredu’r Mesur, o ddeutu £200k yn 2011-12, eu talu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru. Bydd cyfran fach o’r cyfanswm yn talu am y gwaith sy’n gysylltiedig â’r Gorchymyn hwn.

**Opsiwn 2: gwneud dim**

36. Nid oes unrhyw gostau’n gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Er hynny, bydd methiant i wneud y Gorchymyn hwn yn golygu methiant i baratoi’r datganiad o gyfrifon a’r adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012 a methiant i ddiwygio’r ddeddfwriaeth i sicrhau bod Comisiynydd y Gymraeg yn destun i’r un dyletswyddau statudol â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## Ymgynghori

37. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r polisi sy'n sail i'r Gorchymyn na chwaith ar y Gorchymyn drafft,  gan na fydd y Gorchymyn yn cael effaith uniongyrchol ar y sectorau cyhoeddus, preifat na gwirfoddol.

## Asesu'r Gystadleuaeth

38. Ni aseswyd y gystadleuaeth gan na fydd y Gorchymyn hwn yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## Adolygu ar ôl gweithredu

39. Caiff y trefniadau eu hadolygu fel rhan o weithdrefnau cau prosiect gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.